# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **03.07.18** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Roberts** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Mari Wynne Jones a Rhion Glyn** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679268** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Lle i Alw'n Gartref: Effaith a Dadansoddiad** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyo camau pellach mewn ymateb i'r arolwg dilynol sydd wedi ei wneud gan y Comisiynydd Pobl Hŷn o'r adroddiad gwreiddiol – Lle i'w Alw'n Gartref.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Cafwyd cais gan y Comisiynydd Pobl Hŷn i'w hadroddiad terfynol (Atodiad 1 - Lle i Alw'n Gartref: Effaith a Dadansoddiad), a'r dadansoddiad unigol (Atodiad 2 - Arolwg Dilynol i'r Adolygiad o Gartrefi Gofal: Sylwebaeth am yr Ymateb gan Gyngor Gwynedd) yn cael ei drafod ar lefel Cabinet.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Yn 2014 cyflwynodd y Comisiynydd Pobl Hŷn ganfyddiadau o'i hadolygiad o Gartrefi Gofal. Amlygwyd yn glir yr angen sylweddol i newid a sicrhau fod ansawdd bywyd i bobl hŷn yn ganolog i'r system gofal rydym yn gweithio ynddi. Yn yr adroddiad gwreiddiol disgrifiwyd y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau gwelliannau mewn cartrefi gofal y mae pobl hŷn am eu gweld ac y mae ganddynt hawl i'w disgwyl.

3.2 Croesawyd a gwerthfawrogwyd y canfyddiadau hyn gan oll o gyrff cyhoeddus oedd dan ystyriaeth yn ei hadolygiad, a gofynnodd y Comisiynydd Pobl Hŷn am sicrwydd y byddent yn cymryd y camau oedd eu hangen ar gyfer sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

3.3 Mewn ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol fe aeth Gwynedd, fel y gweddill o gyrff cyhoeddus Cymru oedd dan ystyriaeth yn ei hadolygiad, ati i lunio rhaglen waith. Mae'r rhaglen waith y cytunwyd arno yn Mai 2015, ac adroddiad gwreiddiol y Comisiynydd, heb os wedi dylanwadu'n sylweddol ar waith dydd i ddydd yr Adran ac ar benderfyniadau o ran datblygu, comisiynu, darparu a monitro gwasanaethau gofal.

3.4 Rydym fel awdurdod yn gwerthfawrogi'n fawr gyfraniad a dylanwad y Comisiynydd Pobl Hŷn dros y blynyddoedd diwethaf tuag at wella'r system

gofal yng Nghymru, ac rwyf yn awyddus hefyd i ddiolch iddi yn bersonol am ei hamser a'i hadborth adeiladol sydd wedi ei rannu gyda ni yma yng Ngwynedd.

3.5 Ym mis Ionawr 2017 cafwyd cais gan y Comisiynydd Pobl Hŷn am wybodaeth oedd yn tystiolaethu fod yr hyn gytunwyd arno fel rhaglen waith nol yn Mai 2015 wedi ei weithredu ac wedi ei wreiddio fel rhan o ddarparu a chomisiynu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Gofynnwyd yn benodol am dystiolaeth ar bedwar 'Angen Gweithredu' (Atodiad 3).

3.6 Mae Atodiad 2 (Arolwg Dilynol i'r Adolygiad o Gartrefi Gofal: Sylwebaeth am yr Ymateb gan Gyngor Gwynedd) yn nodi sylwadau'r Comisiynydd fesul y pedwar 'Angen Gweithredu', a'i barn os yw Gwynedd fel awdurdod wedi gwneud lefel derbyniol o gynnydd. Mae'r dadansoddiad yn amlygu fod un o'r Anghenion Gweithredu yn 'Ddigonol', dau ohonynt wedi eu nodi fel 'Rhannol Ddigonol' ac un yn 'Annigonol'.

3.7 Yn gyffredinol roedd y Comisiynydd o'r farn fod y dystiolaeth a rannwyd gyda hi mewn ymateb i'w chais yn Ionawr 2017 (Atodiad 3) yn cydymffurfio gyda'r gofynion fformat, ond mewn nifer o feysydd na ddarparwyd digon o fanylion er mwyn gallu rhoi dyfarniad. Nodwyd yn benodol hefyd fod angen mwy o dystiolaeth o ran deilliannau i bobl hŷn ac angen i unrhyw wersi calonogol sy'n cael eu dysgu cael eu rhannu a'u lledaenu yn ehangach. Er ei bod yn cydnabod felly'r trefniadau sydd wedi eu rhoi mewn lle o ran Adroddiad Ansawdd Blynyddol, dylid nodi y byddai'r Comisynydd wedi dymuno gweld gwybodaeth benodol ynglŷn â sut mae gweithgaredd yn cael ei fonitro o ran cynnydd ac yn cael ei adolygu o fewn strwythurau rheoli corfforaethol. Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd fod camau pwrpasol a chalonogol yn cael eu cymryd trwy Ffordd Gwynedd o ran newid diwylliant a datblygu ymagweddau sy'n canolbwyntio fwy ar yr unigolyn.

3.8 Ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth a rannwyd gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn (Atodiad 3) credaf fod ei dadansoddiad (Atodiad 2) yn un trylwyr, cywir a theg. Wedi dweud hyn, rwy'n teimlo fod nodi 'Annigonol' ar gyfer Angen Gweithredu 3.3 braidd yn llym ac y byddai dyfarniad 'Rhannol Ddigonol' o bosib wedi bod yn decach. Er na gyfeiriwyd at y rhaglen waith gwreiddiol yn ymateb 3.3 credaf ein bod wedi cyfeirio at nifer o brosiectau cyffrous a llwyddiannus sy'n tystiolaethu fod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn. e.e. Hen Blant Bach, Prosiect Perthyn a Phrosiect 'Speak Up' i enwi dim ond rhai.

3.9 O drafod gyda swyddogion sydd wedi bod ynghlwm a'r gwaith o gasglu gwybodaeth a thystiolaethu, ac er yn deall yr angen amlwg i gael cysondeb mewn ymatebion gan gyrff cyhoeddus ar draws Cymru, credaf ei fod yn deg i mi nodi eu bod yn teimlo nad oedd y fformat o ran cyfyngder geiriau ayyb yn eu galluogi i gyflwyno'r holl wybodaeth y byddent wedi ei ddymuno.

3.10 Ers derbyn y sylwebaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Pobl Hŷn dechrau'r flwyddyn (Atodiad 1 a 2), mae swyddogion yr Adran wedi gwneud cryn ymdrech i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth bellach mewn ymateb i sylwadau manwl y Comisiynydd.

3.11Er felly fod lle amlwg sydd i wella a thystiolaethu i'r dyfodol, braf oedd

gweld sylw'n cael ei roi yn benodol i brosiectau Gwynedd (Dementia GO a Phrosiect Perthyn) wrth rannu arferion da yn yr adroddiad cenedlaethol (Atodiad 1 - Lle i Alw'n Gartref: Effaith a Dadansoddiad),

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Cynigir fod y Cabinet yn ystyried cymeradwyo'r camau pellach canlynol mewn ymateb i'r arolwg dilynol sydd wedi ei wneud gan y Comisiynydd Pobl Hŷn o'r adroddiad gwreiddiol - Lle i'w Alw'n Gartref.

1. Cyflwyno gwybodaeth bellach a manwl sy'n rhoi mwy o dystiolaeth i'r Comisiynydd ac sy'n ymateb i'r sylwadau yn erbyn y pedwar Angen Gweithredu.
2. Sicrhau fod trefniadau monitro ansawdd y dyfodol yn cyfarch unrhyw elfennau ble rydym yn tybio sy'n wan ac angen eu cryfhau.
3. Datblygu ein mesuryddion perfformiad Ffordd Gwynedd ymhellach o ran sicrhau fod gennym ddata ansoddol a thematic fesul Cartref Preswyl i'r dyfodol.
4. Parhau gyda'r rhaglen waith cynhwysfawr sydd ar waith i ddatblygu ac addasu Cartrefi Preswyl mewnol y Sir er mwyn ymateb i anghenion mwy dwys ein trigolion ac arbenigedd Dementia yn benodol.

4.2 Credaf y byddai gweithredu'r camau pellach dan sylw yn sicrhau ein bod rhoi darlun llawnach i'r Comisiynydd o'r gwaith da sy'n mynd rhagddo ers i'r canfyddiadau gwreiddiol gael eu rhannu yn 2014.

4.3 Credaf hefyd y byddai'r camau hyn yn ein helpu i ddysgu yn barhaus, rhannu ymarfer da a datblygu ein gwasanaethau i'r dyfodol.

4.4 Hoffwn gymryd y cyfle hefyd i hysbysu'r Cabinet o adroddiad arall fydd yn cael ei gyflwyno gennyf yn fuan. Mi fydd yr adroddiad yn gofyn am fuddsoddiad ariannol ar sail barhaol er mwyn gallu ariannu a chynyddu oriau gofal yn ein Cartrefi Gofal. Sail a chefndir y cais hwn fydd yr angen i gyfarch anghenion mwy dwys trigolion ein Cartrefi Preswyl, yn ogystal â sicrhau fod gennym y capasiti angenrheidiol i fod yn datblygu ymhellach ein harbenigedd Dementia ar draws y Sir. Mae tystiolaeth yn barod wedi ei rannu gyda'r Comisiynydd o'r gwaith sydd wedi digwydd yn Llys Cadfan yn benodol a'r bwriad i ddatblygu Cartrefi eraill ar draws y Sir.

4.5 Mae'r bwriad yma wedi ei amlygu yng Nghynllun y Cyngor a hyderaf y bydd cymeradwyaeth y Cabinet i'r adroddiad sydd ar y gorwel yn ymateb i argymhellion diweddar gan Arolygaeth Gofal Cymru o ran lefelau staffio ein cartrefi preswyl, ond heb os hefyd, yn ein harfogi i sicrhau gwelliannau parhaus o ran cynnig gofal dementia yn agos at adref.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth a thystiolaeth bellach wedi ei gwblhau ac yn barod i gael ei anfon i'r Comisiynydd. Rhagwelir y bydd y wybodaeth

ychwanegol dan sylw wedi cael ei anfon i’r Comisiynydd Pobl Hŷn cyn diwedd mis Gorffennaf.

5.2 Rhagwelir y bydd gwaith yn mynd rhagddo dros y 12 mis nesaf i ddatblygu mesuryddion perfformiad ar gyfer Cartrefi Gofal ac ystyried sut fyddwn yn addasu a dylanwadu ar ein trefniadau monitro ansawdd cyfredol. Byddwn yn monitro cynnydd o ran hyn trwy'r drefn monitro perfformiad.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

*[Gosod yma sylwadau’r Swyddogion Statudol ( Prif Swyddog Cyllid a’r Swyddog Monitro)*

***Prif Swyddog Cyllid :***

*Deallaf nad yw’r awdur yn rhagweld unrhyw wariant ychwanegol yn deillio o’r gwaith yma, ac nid yw’r adroddiad hwn yn ymrwymo’r Cabinet i unrhyw wariant penodol, gan fydd cyllidebau cyfredol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cwrdd ag unrhyw bwysau ychwanegol.  Wedi dweud hynny, nodaf bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant mewn lle cryf o ran gwella’r gwasanaethau yn unol â darganfyddiadau’r Comisiynydd trwy ddefnyddio adnoddau ychwanegol o ‘bidiau’ cymeradwyodd y Cyngor erbyn 2018/19, a grant ‘y gronfa gofal integredig’ o’r Llywodraeth eleni.*

***Swyddog Monitro :***

*Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.*